# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 31/10/2022 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | William Roger Jones | Hywel James Sinclair Evans |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Patricia Hope-Whitney | Ian Goronwy Williams |
| Greta Hughes | Ann L. Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) | |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Alaw Ceris, David Andrew Parry

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Gwenllian Davenport Hughes & Greta Hughes – Cais cynllunio C22/0924/38/LL

3. **Cofnodion Pwyllgor 26/09/2022 & 10/10/2022**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Alan Harper-Smith Eilio: Ian Goronwy Williams
   Diolchodd y cadeirydd i'r is-gadeirydd am gadeirio y mis diwethaf.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Cafwyd diweddariad a trafodaeth ar y canlynol gan y Cynghorydd Angela Russell ar ôl i'r cadeirydd ei chroesawu i'r cyfarfod.
   <u>Potiau Blodau</u>
   Mae'r cynghorydd lleol wedi cael grant i brynnu 2 bot blodau tair haen i Llanbedrog gan Mantell Gwynedd ac hefyd wedi llwyddo i gael arian i roi blodau ynddynt ac unwaith byddent wedi cael eu lleoli yn y pentref mae hi eisiau eu trosglwyddo i Cyngor Cymuned Llanbedrog. Mae hi wedi siarad hefo David Andrew Parry ynglŷn â lle i'w rhoi yn y pentref a cynnigwyd un yn y top wrth fynedfa maes parcio Cil Dwrn a'r llall yng ngwaelod y pentref. Gofynnodd y clerc iddi am werth y potiau unwaith y byddent yn eu lle er mwyn iddi gael eu ychwanegu i'r rhestr eiddo sydd gan y Cyngor Cymuned ac mae hi am adael i'r clerc wybod. Mae hi am drefnu dyddiad i blannu'r blodau a lleoli'r potiau er mwyn i bobol y pentref gael helpu.
   <u>Cae Pentra Llan</u>
   Mae angen torri'r goeden ddrain sydd yn amharu ar y drych yng ngwaelod allt Glyn y Weddw ac mae angen torri'r gwrych ochor Cae Pentra Llan ac mae'r cynghorydd lleol yn cynnig y gwnaiff ei gŵr sydd yn torri'r gwrych i berchnogion Cae Glas sef yr eiddo yr ochor arall i Cae Pentra Llan ei dorri yr un pryd â torri'r goeden hefyd. Cytunnodd yr aelodau i hyn a diolchodd y cadeirydd iddi am y cynnig.
   Cynnig: John Brinley Jones Eilio: Thomas Victor Jones
   <u>Toiledau i lawr wrth y traeth</u>
   Mae yna ddipyn o waith yn cael ei wneud i adnewyddu'r toiledau i lawr wrth y traeth, maent wedi cael ffenestri newydd ac mae'r cynghorydd lleol wedi cael cadarnhad gan Cyngor

Gwynedd y bydd y tu mewn yn cael ei adnewyddu yn ystod y gaeaf. Byddai'n syniad da ar ôl i'r tu mewn gael ei ail wneud i geisio eu cadw'n agored drwy'r flwyddyn ac fe fydd rhaid edrych i mewn i hyn.

Cysgodfan Bws Maes Parcio Cil Dwrn

Mae hi yn diolch i'r Cyngor Cymuned am drefnu'r gwaith sydd yn cael ei wneud ar y gysgodfan.

Llinellau Melyn bob ochor i fynedfa Ystad Cysgod y Cwmwd

O'r diwedd mae'r llinellau melyn wedi cael eu paentio yma.

Diolchodd y cadeirydd iddi am yr holl waith mae hi yn ei wneud a cynnigiodd y dylai'r cynghorydd lleol fynychu'r cyfarfodydd yn achlysurol er mwyn diweddaru'r aelodau ar beth sydd yn digwydd yn y pentref.

5. **Cyflwyniad Cynllun Peilot Ardal Dwyfor**

Croesawyd Steffan Smith a Catrin Huws i'r cyfarfod gan y cadeirydd a cafwyd cyflwyniad ganddynt ar Cynllun Peilot Ardal Dwyfor. Mae'r cynllun yma yn ymwneud hefo newidiadau i drethi ar ail gartrefi, llety gwyliau a trethi tir a newidiadau i'r rheolau cynllunio sy'n delio hefo newid defnydd eiddo o gartref i lety gwyliau a'u rôl nhw ydi monitro'r effaith mae'r newidiadau yma yn gael ar gymunedau Dwyfor. Yr ail ran o'r cynllun peilot ydi cael mwy o dai fforddiadwy i bobol leol sy'n prynu am y tro cyntaf drwy'r cynllun prynu cartref ac yn sgil y peilot yma mae yna fwy o arian wedi cael ei glustnodi ar ei gyfer. Benthyciad yw'r cynllun prynu cartref sydd yn gwbwl ddi-log ac yn gallu bod rhwng 10% a 50% o werth yr eiddo ac nid oes raid ei dalu'n ôl nes mae'r eiddo yn cael ei werthu neu pan fydd y sawl sydd wedi cael menthyg yr arian wedi cynilo ddigon o arian i'w dalu nôl. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ennill cyflog o rhwng £16,000 a £60,000 i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun ac yn cael dewis eiddo sydd yn i fyny at £300,000 mewn gwerth ac mae modd cofrestru ar gyfer y cynllun yma ar wefan Tai Teg. Ar ddiwedd y cyflwyniad bu cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynnau ac yn dilyn y cwestiynnau addawodd Catrin Huws yrru mwy o wybodaeth i'r clerc gael ei rannu hefo'r aelodau. Diolchodd y cadeirydd iddynt am y cyflwyniad.

6. **Cyllideb 2023-2024**

Mae gyllideb wedi cael ei greu drwy edrych ar y gwariant am y flwyddyn llawn ddiwethaf sef 2021-2022 a gwariant 2022-2023 hyd yma ac mae'r clerc wedi anfon copi ohoni i bawb cyn y pwyllgor ac fe aeth y cadeirydd drwy'r ffigyrau.

Mae'r ffigyrau ar gyfer torri llwybrau, torri cae chwarae, cae pentre llan a torri'r fynwent yn ffigyrau cytundeb ac mae'r gwaith ychwanegol wedi cael ei godi ychydig i fod yn ddigonol ar gyfer y gwaith yma. Mae ffigwr ar gyfer y toiledau yn aros yr un fath ac mae cyflog y clerc wedi ei godi i gydfynd gyda'r cynnig a basiwyd ym mhwyllgor mis Mai 2022. Mae'r ffigwr yswiriant, offer gweinyddol, awdit, ffioedd, cyfieithydd, band eang ac arall unai yn aros yr un fath neu wedi cael eu codi ychydig i gyd fynd gyda gwariant 2021-2022 a gwariant hyd yma yn 2022-2023. Mae'r un swm wedi cael ei glustnodi ar gyfer y fynwent newydd eto eleni gan fod angen dechrau ar y gwaith yma yn fuan iawn ac mae'r un swm wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cae chwarae eto eleni gan fod angen dipyn o waith i gael y cae chwarae i fyny i safon, mae swm wedi cael ei glustnodi hefyd ar gyfer y gwaith mae Roger Fisher yn ei wneud o

gwmpas y pentref. Cynnigiodd y cadeirydd y dylai rhoi swm ar y gyllideb ar gyfer yr etholiad gan fod y Cyngor Cymuned wedi cael anfoneb sylweddol ar gyfer yr etholiad diwethaf.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i ychwanegu £250.00 at y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer etholiad ac yna derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £25,250.00.
Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: Thomas Victor Jones

7. **Symud arian y Cyngor Cymuned o Lloyds**
Mae'r clerc wedi bod yn Nat West i holi faint fysa'r banc yn gyfro petaent yn torri ar ffigwr ydi £85,000.00. Mae gan y Cyngor Cymuned £40,320.36 yn Lloyds a £70,934.71 yn Nat West felly cyfanswm o arian y Cyngor Cymuned yw £111,255.07. Mae gan HSBC ffi misol o £5 ar bob cyfrif busnes yn ogystal â ffi am dalu siec i mewn a newid pob siec ac nid oes sicrwydd na wnaiff y banciau eraill ddilyn Lloyds a cau y gangen ym Mhwllheli hefyd.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i'r clerc symud yr arian o Lloyds i Nat West a cael yr arian i gyd yn Nat West sef yr opsiwn mwyaf hwylus.
Cynnig: William Roger Jones Eilio: Alan Harper-Smith

8. **Adolygu yr Asesiad Risc**
Gofynnodd y cadeirydd os oedd rhywun eisiau gwneud newidiadau i'r Asesiad Risc ac atebodd Greta Hughes ei fod yn dweud fod pob dim sydd yn y rhan cyffredinnol ar wahan i'r toiledau i fod i gael eu archwilio yn flynyddol ond nid yw yn dweud gan pwy felly fe fydd rhaid gwneud hyn yn fwy ffurfiol. O ganlyniad penderfynwyd i newid 'Archwilio yn Flynyddol' i 'Archwilio bob mis Ebrill' ac ychwanegu 'gan gwmni cymwys' o dan 'offer cae chwarae' a 'mynediad, waliau a ffensys o amgylch cae chwarae', ac ychwanegu 'gan gontractwr cynnal a chadw'r Cyngor Cymuned' o dan 'Meinciau', 'Tir Pentra Llan', 'Y Ddelw, Tir y Cwmwd' a 'Llochesi bws'. Gofynnodd William Roger Jones os yw'r Neuadd yn yr Asesiad Risc a dywedodd y cadeirydd nad ydy ac fe ddylai'r pwyllgor newydd y Neuadd wneud Asesiad Risc eu hunain. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans y dylai'r Cyngor Cymuned gadw golwg ar Asesiad Risc y Neuadd gan fod aelodau'r Cyngor Cymuned yn ymddiriedolwyr y Neuadd a dywedodd y cadeirydd bod rhaid gweld beth sydd yng nghyfansoddiad y Neuadd. Dywedodd Greta Hughes y dylai'r Cyngor Cymuned gymeryd cyfrifoldeb dros yr adeilad i wneud yn saff bod yr adeilad, toiledau a'r gegin a.y.y.b. yn addas. Awgrymodd y cadeirydd bod y Neuadd yn cael ei ychwanegu i'r Asesiad Risc o dan Cyffredinnol gan roi 'mae aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog yn ymddiriedolwyr y Neuadd a'u bod yn gyfrifol am y Neuadd os nad oes is-bwyllgor mewn grym, bydd rhaid i'r gofalwr adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned yn rheolaidd am unrhyw broblemau'. O dan mynwent mae 'cerrig beddi' sydd eto yn dweud bod angen archwiliad blynyddol ac mae'r cadeirydd yn meddwl fod yna Ddeddf ynglŷn â archwilio cerrig beddi a bod angen rhywun hefo cymhwyster arbennig i wneud y gwaith yma ac mae'r cadeirydd am fynd a'r ôl y mater ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor nesaf. Mae'r clerc am wneud y newidiadau i'r rhan cyffredinnol ar gyfer y pwyllgor nesaf.

9. **Llwybrau**
Adolygu Tendr Torri Llwybrau – gan ein bod yn brin o amser penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.

**10. Y Fynwent**

Nid yw'r cadeirydd wedi cael hyd i Saer Maen i drwsio wal y fynwent er ei fod wedi trio lawer gwaith, ac mae'r contractwr cyntaf i gyfarfod y cadeirydd yn y fynwent wedi gadael i'r clerc wybod nad oes ganddo ddiddordeb yn y gwaith. Mae Alan Harper-Smith am anfon manylion cyswllt o Saer Maen arall i'r cadeirydd felly gobeithio y bydd diweddariad erbyn y pwyllgor nesaf.

Mae'r clerc angen trefnu cyfarfod rhwng y cadeirydd a Greta Hughes a Ieuan Ellis Owen er mwyn trafod y cynllun sydd hefo'r gweithredoedd ac mae'r ddau wedi cadarnhau heno bod y 11eg o Dachwedd rhywbryd ar ôl 3y.h. â'r wythnos ganlynol sef o'r 14eg i'r 18fed o Dachwedd yn iawn felly mae hi am gysylltu hefo Ieuan Ellis Owen cyn gynted a phosibl.

Er gwybodaeth - mae Thomas Victor Jones wedi derbyn cwyn bod blodau yn cael eu dwyn oddi ar fedd yn y fynwent ac yn gofyn i'r aelodau gadw llygaid allan.

**11. Cae chwarae**

Gan nad yw Alaw Ceris yn bresennol heno fe fydd rhaid aros tan y pwyllgor nesaf i gael diweddariad ar y cae chwarae.

**12. Neuadd y Pentref**

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd.

Cafwyd diweddariad gan Ian Goronwy Williams ar y mater yma sef bod dau gyfarfod wedi bod hyd yn hyn, yn y cyfarfod cyntaf ni etholwyd swyddogion ac yn anffodus nid oedd yn gallu bod yn bresennol yn yr ail gyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd ond mae'n deallt na chafwyd swyddogion eu hethol yn yr ail gyfarfod ychwaith ac er mwyn rhoi cais grant i fewn mae rhaid cael cadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd. Mae o wedi cael gair hefo Patricia Hope-Whitney dros y penwythnos ble y soniodd hi ei bod wedi cysylltu hefo'r loteri i holi am grant a'i bod wedi dweud wrthynt eu bod yn gobeithio cael £100,000 ganddynt ond tydi Ian Goronwy Williams ddim yn meddwl ei bod wedi rhoi cais i fewn eto. Mae cyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer y 9fed o Dachwedd 2022 gan Patricia Hope-Whitney. Mae William Roger Jones yn cynnig i Ian Goronwy Williams alw cyfarfod pan mae'n gyfleus ganddo fo gan fod amryw o'r aelodau wedi dangos diddordeb mewn ffurfio pwyllgor i ddelio hefo'r Neuadd ac mae Ian Goronwy Williams ddigon hapus i wneud hynny ond efallai na fydd hyn yn gyfleus iddo fo tan ddiwedd y flwyddyn neu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Dywedodd y cadeirydd ei fod wedi holi am gofnodion y ddau bwyllgor sydd wedi bod ond does neb yn gwybod ble mae nhw felly fe fydd rhaid cael hyd iddynt er mwyn cael gwybod beth ddigwyddodd yn y cyfarfodydd.

Gadawodd y clerc i'r aelodau wybod balans cyfrif y Neuadd sef £8,630.00 ar y 3ydd o Hydref 2022.

Codi prisiau llogi'r neuadd.

Agenda mis nesaf.

## Cofnodion Cyfarfod 31/10/2022 7:00yh – O Bell

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 7 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£210.00** |
| **PPM Technology** – Deunyddiau i drwsio maes parcio y Neuadd | **£67.08** |
| **Ashley Hughes** – Cerdyn | **£2.39** |
| **Cyngor Gwynedd** – Toiledau Cyhoeddus 2022-2023 | **£2000.00** |
| **Pat Humphreys** – Ad-daliad zoom | **£143.88** |
| **PPM Technology** – Deunyddiau i Roger Fisher | **£18.45** |
| **Roger Fisher** – Gwaith o gwmpas Llanbedrog | **£690.00** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Gwynedd –** Praesept | **£12000.00** |
| **Glyn Owen –** Angladd Alan Richard Hughes | **£145.00** |
| **G.D.Roberts –** Angladd Emma Dale Jones | **£145.00** |
| **G.D.Roberts –** Gosod carreg fedd Margaret Lillian Haslam | **£140.00** |

**Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0924/38/LL** – Fferm Crugan, Llanbedrog – Gosod sied goed i gynnwys peiriant gwerthu cynnyrch fferm ynghŷd â chreu llecynnau parcio a thirlunio.

**Penderfyniad**: Cefnogi – mae'n dda gweld eu bod yn edrych ymlaen i'r dyfodol ac yn cadw busnes lleol i fynd.

Cynnig: Thomas Victor Jones  Eilio: Alan Harper-Smith

**C22/0781/38/DT** – Moryn, Ffordd y Glyn, Llanbedrog – Cais ar gyfer codi crib y to er mwyn cynyddu'r gofod to ynghŷd â darparu darparu ffenestri cromen a chodi estyniadau unllawr a deulawr.

**Penderfyniad**: Gwrthod

1. Mae pryderon am faint yr estyniadau sydd yn or-ddatblygiad o'r safle, byddai'r datblygiad yn gwbl newid cymeriad y ty ac yn gosod cynsail peryglys o addasu tai yn llawer mwy na'r hyn sydd ar y safle yn wreiddiol.
2. Byddai'r datblygiad yma hefyd yn cael effaith andwyol ar drigolion cyfagos.

Cynnig: Hywel James Sinclair Evans  Eilio: Ian Goronwy Williams

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

**C22/0845/38/DT** – Birkdale, Ffordd Pedrog, Llanbedrog – Estyniadau ac addasiadau.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad ond rhaid rhoi'r amodau canlynol ar y cais:

1. Dim rhannu y tŷ yn ddau eiddo - ei gadw fel un uned.
2. Pryderon parcio - dim parcio ar y palmant i amharu ar drigolion cyfagos a'r Ysgol drost y ffordd.

Cynnig: Ian Goronwy Williams    Eilio: Hywel James Sinclair Evans

**Cais am gyfraniad**

Dim.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9.00y.h.